| Datganiad Terfyn Ffioedd | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Prifysgol De Cymru |
| Hyd y datganiad terfyn ffioedd a dyddiad dod i rym | 1 Awst 2027 i 31 Gorffennaf 2028 |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu benderfynu ar lefel ffi ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel Ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm Ffi Reoleiddiedig | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Prifysgol De Cymru**<br>• Israddedig a TAR yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**<br>• Israddedig a TAR yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Pen-y-bont**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |

| | |
|---|---|
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Caerdydd a'r Fro**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gwent**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg y Cymoedd**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gŵyr Abertawe**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Y Coleg Merthyr Tudful**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Grŵp Colegau NPTC**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |

| | |
|---|---|
| | • Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau ar ôl 31/07/2025 |
| £9,000 | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Prifysgol De Cymru**<br>• Israddedig a TAR yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**<br>• Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Pen-y-bont**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Caerdydd a'r Fro**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gwent**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg y Cymoedd**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025 |

| | |
|---|---|
| | • Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gŵyr Abertawe**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Y Coleg Merthyr Tudful**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Grŵp Colegau NPTC**<br>• Gradd Israddedig yn dechrau cyn 01/08/2025<br>• Tystysgrif Addysg Uwch yn dechrau cyn 01/08/2025 |
| £8,000 | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Prifysgol De Cymru**<br>• Gradd Sylfaen Hyfforddi a Datblygu Pêl-droed Cymunedol a Gradd Sylfaen Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon Cymunedol a ddechreuodd ar ôl 01/08/2020 a chyn 01/08/2025 |
| £7,500 | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Pen-y-bont**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |

| | |
|---|---|
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Caerdydd a'r Fro**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gwent**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg y Cymoedd**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Coleg Gŵyr Abertawe**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28** |

| | |
|---|---|
| | **Y Coleg Merthyr Tudful**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Grŵp Colegau NPTC**<br>• Graddau Sylfaen<br>• Diploma Cenedlaethol Uwch<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch<br>• Diploma Addysg Uwch |
| £1,350 | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Prifysgol De Cymru**<br>• Lleoliadau Gradd Israddedig dramor |
| £1,000 | **Blwyddyn Academaidd 2027/28**<br>**Campysau Prifysgol De Cymru**<br>• Lleoliadau rhyngosod Gradd Israddedig |

**Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol**

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r uchafswm ffi ar gyfer myfyrwyr cartref ar gyrsiau israddedig amser llawn. Gall uchafswm y ffi y gall Prifysgol De Cymru ei chodi ar fyfyriwr am bob blwyddyn o gwrs gynyddu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r lefel a ganiateir o chwyddiant ar gyfer ffioedd. Er nad yw'n bosibl rhagweld a fydd cynnydd na faint y gallai'r cynnydd fod, nodwch ei fod wedi'i gynyddu o £9,000 i £9,250 gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024, o £9,250 i £9,535 ym mis Rhagfyr 2024, ac o £9,535 i £9,790 ym mis Rhagfyr 2025. Bydd unrhyw newid i ffioedd yn cael ei gyfleu i fyfyrwyr mewn da bryd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y bydd y ffi yn newid ynddi.

Codir y ffioedd a amlinellir yn adran 1.1 bob blwyddyn ar fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau israddedig amser llawn yn 2027/28 ac sy'n cwblhau eu hastudiaethau yn ystod y cyfnod cwrs penodedig (h.y. nad oes angen iddynt ailadrodd unrhyw gam o'u hastudiaethau) hyd nes y byddant wedi'u cwblhau. Er enghraifft, codir yr uchafswm ffi reoleiddiedig, sef £9,790 ar hyn o bryd ym mhob blwyddyn academaidd, ar fyfyriwr sy'n cofrestru ar gwrs israddedig tair blynedd yn un o gampysau'r Brifysgol yn 2026/27 sy'n symud ymlaen trwy'r cwrs heb orfod ailadrodd modiwl, ac, os yw'r ffi honno'n aros yr un fath ym mhob blwyddyn academaidd, mae'n cyfateb i gyfanswm ffi o £29,370. Codir yr uchafswm ffi reoleiddiedig, sef £9,790 ar hyn o bryd ym mhob blwyddyn academaidd (yn amodol ar y paragraff uchod), ar fyfyriwr sy'n cofrestru ar gwrs israddedig pedair blynedd, ac, os yw'r ffi honno'n aros yr un fath ym mhob blwyddyn academaidd, mae'n cyfateb i gyfanswm ffi o £39,160. Codir tâl ar fyfyrwyr am astudiaethau ailadroddus, a gallai'r ffi gyfanredol felly fod yn uwch.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynnydd a ganiateir, bydd Bwrdd Llywodraethwyr PDC yn gwneud penderfyniad ar unrhyw gynnydd i'w godi ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2027/28 cyn gynted â phosibl. I unrhyw ddarpar fyfyriwr sy'n bwriadu dechrau ei astudiaethau yn 2027/28, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud a'i gyfleu gan Brifysgol De Cymru cyn i'r ymgeisydd gael cynnig lle. I unrhyw fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn 2027/28, bydd y penderfyniad ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol yn cael ei wneud a'i gyfleu i'r myfyriwr cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy, ddiamwys ac amserol am unrhyw gynnydd mewn ffioedd mewn da bryd, cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae PDC wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwn i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol yn dryloyw ac yn hygyrch ac yn unol ag arfer da'r sector fel y'i diffinnir gan *'Information for Students: A guide to providing information to prospective undergraduate students'*[1]. Rydym yn darparu gwybodaeth gywir ac amserol am y costau y mae myfyrwyr yn debygol o'u hysgwyddo dros gyfnod eu cwrs, beth sydd wedi'i gynnwys yn y ffioedd a godir, a'r cymorth ariannol sydd ar gael. Mae pob tudalen we cwrs yn darparu manylion am y ffioedd dysgu y gellir eu codi ac unrhyw gostau astudio ychwanegol (er enghraifft gweler MChiro).

Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth y gellir cael mynediad ati o wefannau, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau printiedig. Mae hyn yn cyd-fynd â gwybodaeth esboniadol, cyngor ac arweiniad a ddarperir ar lafar i ddarpar fyfyrwyr, rhieni (lle bo'n berthnasol) a'u cynghorwyr. Rydym yn sicrhau y gall myfyrwyr gael mynediad at wybodaeth am ffioedd mewn amrywiol fformatau sy'n diwallu eu hanghenion orau: ar-lein, ar bapur ac wyneb yn wyneb. Cynhelir cyfathrebu yn unol â Siarter Myfyrwyr y Brifysgol, y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

[1] https://www.officeforstudents.org.uk/media/2db81e6b-e4c7-4867-bc5d-ff67539d13e8/guide_to_providing_info_to_students.pdf

- **Ein Gwefan** yw'r brif ffynhonnell wybodaeth gyfoes am lefelau ffioedd dysgu ar gyfer darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol. Mae pob cwrs a gynigir wedi'i restru ar ein gwefan a gwefan UCAS/CUKAS lle bydd yr uchafswm ffi cael ei dangos. **Rydym yn cydymffurfio, ac mae gennym ymrwymiad parhaus i, ein rhwymedigaethau o dan gyfraith diogelu defnyddwyr (Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015) a chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch**. Byddwn yn parhau i sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy, ddiamwys ac amserol am ein cyrsiau a'n costau gan sicrhau eu bod yn cael gwybod yn llawn yn ystod y camau ymgeisio, cynnig a chofrestru.
- **Myfyrwyr masnachfraint** – rydym yn sicrhau bod ein colegau partner addysg bellach yn cael eu hymgynghori'n llawn ar lefelau ffioedd i'w codi am ein darpariaeth ac yna mae'r colegau'n trosglwyddo hyn i ddarpar fyfyrwyr trwy'r wefan neu drafodaeth un-i-un.

Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth trwy:

- Prosbectws y Brifysgol.
- Rhaglen gyswllt ysgolion a cholegau'r Brifysgol (sy'n cynnwys ymweliadau ar y campws ac oddi arno, cylchlythyrau a digwyddiadau arbenigol).
- Cyfathrebu â darpar fyfyrwyr drwy ymgyrchoedd e-bost a chyfryngau cymdeithasol.
- Diwrnodau agored a diwrnodau ymgeisio; a
- Drwy ein Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr.

Yn unol â'n Polisi Rheoli Ffioedd a Dyledion (Awst 2023) [2], mae rhai ffioedd dysgu ôl-raddedig a rhan-amser yn destun cynnydd blynyddol. Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw gostau cudd i astudio. Lle mae costau gorfodol ychwanegol yn anochel drwy eithriad, e.e. teithiau maes rhyngwladol, prynu offer, gwiriadau DBS ac ati, mae'r costau hyn wedi'u nodi'n glir.

## Cymorth Ariannol sydd ar Gael i Fyfyrwyr

- Mae adran bwrpasol Cyllid Myfyrwyr ar wefan y Brifysgol, a reolir gan Dîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr[3] y Brifysgol, yn darparu gwybodaeth a chanllawiau manwl ar y pecynnau cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr PDC.
- Byddwn yn nodi unrhyw newidiadau i drefniadau cymorth y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) yng Nghymru ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Darperir dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill gan gynnwys gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (a chymarebion cyfatebol).

---

[2] Polisi Ffioedd a Rheoli Dyledion_2023-24_x6wXFFw.pdf (uswvarious1.blob.core.windows.net)
[3] https://www.southwales.ac.uk/study/fees-and-funding/

- Mae Tîm Cyngor Ariannol Fyfyrwyr y Brifysgol hefyd ar gael i ddarpar fyfyrwyr a allai fod eisiau ceisio cyngor ar y cymorth ariannol penodol sydd ar gael iddynt, neu a allai fod â phroblem ynghylch ariannu eu hastudiaethau, a gall hefyd gynorthwyo myfyrwyr i wneud cais am gymorth.
- Bydd myfyrwyr masnachfraint yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol yn eu Colegau. Rydym yn annog colegau partner yn benodol i neilltuo incwm ffioedd dysgu ar gyfer cyllid caledi, ochr yn ochr â pharhau â'u cymorth ar gyfer mynediad a phrofiad myfyrwyr.

## Cyfathrebu Newid

- Bydd unrhyw newidiadau ffurfiol i gyrsiau yn cael eu gwneud yn unol â gweithdrefnau Rheoliadau Academaidd y Brifysgol a'u prosesu drwy Strwythurau Pwyllgorau’r Brifysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr.
- Cyfathrebir newidiadau i fyfyrwyr drwy lawlyfrau cwrs ac ar-lein drwy’r porth myfyrwyr, ein tudalennau cwrs ar Blackboard a thrwy ein rhwydwaith o gynrychiolwyr cwrs.

## Awdurdodi'r datganiad terfyn ffioedd (angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi'r ceisiadau datganiad terfyn ffioedd, mae'r corff llywodraethu (neu gyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau bod ymgynghori priodol wedi bod â'r Undeb Myfyrwyr neu gyrff cynrychioliadol eraill, y rhai sy'n astudio yn y darparwr ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, ac felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau cwrs ychwanegol (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau cynnig.

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. yn cadarnhau bod pob cwrs cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) ac waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'i ystyried yn y datganiad hwn;

vi. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfyn ffioedd, fel y'u cymeradwywyd gan Medr;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r datganiad terfyn ffioedd yn hygyrch i'w fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| **Cyflwyno datganiad terfyn ffioedd i Medr[4]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu (neu gyfatebol): | 23 Mehefin 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gyfatebol): |  |
| Dyddiad: | 24 Mehefin 2026 |

[4] Dylai datganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefan y darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr **yn unig**.